

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Ionawr 19, 2021 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts, Huw A. Evans, Barry Jones.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 7.a.i.

Roedd Geraint Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 7.a.ii.

Roedd Hugh A. Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio 7.a.iii.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 17, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 17, 2020

Eitem 6.b. Llythyr (13/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn ymwneud â llyfogydd.

Eitem 11.a. Mae Meurig Ashton a Mordaf Roberts yn fodlon gyda'r trefniant o adael nhw wybod busnes y Cyngor yn adeg Covid19.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (23/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ac Agenda Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Star Leaf am 7.00yh 2/12/2020. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 22/5/2019 a chofnodion Cyfarfod Cyffredinol 8/1/2020.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

Llythyr (25/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sut i ymuno â'r Cyfarfod.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

b. Llythyr (24/11/2020) oddi wrth Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru gyda manylion Gorchymyn Terfyn Cyflymder 40mya Rhan-Amser ar ffordd A494 yn Rhydymain.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

c. Llythyr (26/11/2020) oddi wrth War Memorial Trust. Maent yn rhoi gwybod bod y Gofgolofn Ryfel yng Nghapel Siloh, Bryncoedifor wedi cael ei gynnwys ar 'War Memorials Online'. Mae'r wybodaeth ar y gofgolofn yn aneglur ac yn anodd ei ddarllen. Maent yn dweud bod y gofgolofn ar dir brifet ac maent wedi cysylltu â ni fel lle cychwyn. Maent angen gwybod os mae gennym gynlluniau i drwsio neu gynnal a chadw'r gofgolofn. Mae ganddynt gyngor ar eu gwefan sut i wneud gwaith. Mae grant ar gael i wneud gwaith ond does dim sicrwydd bydd ar gael. Os nid y ni sy'n gyfrifol am yn gofgolofn maent angen gwybod pwy sydd.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

Mae Gerallt Griffith o'r farn mae'n bosib bod enwau y rhai a gollodd eu bywydau o ardal Rhydymain a Brithdir yn y rhyfel wedi cael eu cofnodi ar y gofeb yn y parc yn Dolgellau, a hwyrach honno yw'r gofeb swyddogol.

O ymholiadau gwnaeth Peredur Jenkins ynglŷn â Chofeb Ryfel Llanfachreth yn 2018, cafwyd wybod gan Cyngor Gwynedd mae deddf 'War Memorials (Local Authorities' Powers) Act 1923' yn dweud nad oes gan y Cyngor Cymuned gyfrifoldeb am gofebion.

O ymholiadau gwnaethpwyd â Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y perchennog y gofeb sy'n gyfrifol am ei chyflwr.

Cafwyd wybod gan Kaeren Goswell bod yr enwau sydd ar y gofeb marmor yng Nghapel Silo ar y Gofeb Rhyfel yn Dolgellau a hefyd ar blac brass sydd ar fur Capel Rhydymain. Derbyniwyd manylion yr enwau oedd wedi ei wneud gan Prifysgol Abertawe.

Rhoddwyd y wybodaeth i War Memorial Trust.

ch. Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion canlyniad Arolwg Aelodau gwnaethpwyd yn ddiweddar gyda'r cynghorau wedi cwblhau holiadur.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

d. Llythyr (25/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ragfyr.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

dd. Llythyr (17/12/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Ionawr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (8/2/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad, Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod gwaith wedi ei wneud ar lwybrau canlynol:

- i. Bryncoedifor i Braich Geunant – clirio coed oedd ar draws y llwybr, trwsio ffens, a sychu'r tir oedd yn wlyb iawn.
- ii. Tŷ Hir i Pwllgelan – clirio coed oedd yn cau'r llwybr.
- iii. Bryncoedifor i Uwch y Capel – clirio coeden oedd ar draws y llwybr.

Gweler Cofnodion Hydref 20, 2020, Eitem 11.b.

f. Llythyr (14/1/2021) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Maent yn rhoi gwybod bydd gwaith ail-wynebu ffordd A494 wrth Tynsimdde o 8/2/2021 i 12/2/2021).

ff. Llythyr (18/1/2021) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn pryderu am sefyllfa dai yn Gwynedd gyda phrisiau o afael pobl leol. Amgáu mae llythyr wedi ei baratoi i anfon i Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Tai a Llywodraeth, Gweinidog y Gymraeg, ac Arweinydd Cyngor Gwynedd yn rhoi sylw i'r mater ac awgrymiadau sut i ddatrys y broblem.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r llythyr gan gynwys manylion sy'n berthnasol i ni.

Penderfynwyd hefyd i Peredur Jenkins anfon adroddiad paratowyd gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â thai i'r aelodau.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/98C. Codi adeilad amaethyddol a tho dros storfa tail sych. Esgairgawr, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/12/2020 trwy Zoom).

ii. NP5/54/265P. Storio 14 o carafannau teithio dros y gaeaf o fewn y safle carafannau statig. Safle Carafannau a Gwersylla Dolgamedd, Bontnewydd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (7/12/2020 trwy Zoom).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

iii. NP5/54/39M. Adeiladu adeilad amaethyddol. Hengwrt Uchaf, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/12/2020 trwy Zoom).

iiii. NP5/54/373B. Amrywio Cytundeb 106 cysylltiedig â chaniatad cynllunio NP5/54/373A dyddiedig 22/03/2012. Ysgubor yn Penrhiw, Rhydymain.

Penderfynwyd gwrthod y cais oherwydd cafodd y cais gwreiddiol ei gefnogi gyda Chtundeb 106. (21/12/2020 trwy Zoom).

v. NP5/54/LB194A. Caniatâd Adeilad Rhestredig i amnewid to llenni rhychiog ac adnewyddu a tho llechi yn y dull traddodiadol, gosod 3 ffenestr to math cadwraeth drychiad Dwyreiniol, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw gydag agoriadau drysau presennol i'w cau a drysau pren a drysau o wydr, agoriadau lefel uchel i'w cau ac unedau ffenestri metel uwch siliau llechi gan drosi'r adeilad ysgubor i ddefnydd llety gwyliau dwy lofft, codi'r lloriau gan ychwanegu sistem gwresogi dan lawr calchgrid a gorffeniad derw a chrawiau llechi yn rhannol. Creu ystafell ar gyfer offer rheoli sistem tynnu gwres o'r ddaear a gweithdy. Twlc mochyn yng nghlwm i'w adfer a chynnal mesuriadau lliniaru ystlumod yn ogystal â gwaith atgyweirio perthnasol. Ysgubor Cae'r March, Llanfachreth.

Disgrifiad o'r cynllun: Conversion of outbuilding into holiday accommodation and installation of heating infrastructure with associated internal and external alterations

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/12/2020 trwy Zoom).

vi. NP5/54/LB194B. Caniatâd Adeilad Rhestredig i uwchraddio'r system cyflenwad trosglwyddo gwres o'r ddaear, cyfres o 5 twll wedi cysylltu â phibellau tan ddaear i uned trosglwyddo i'r ochr Gorllewinol o'r twlc. Codi'r llawr ysgubor gan ychwanegu sistem gwres tan lawr a calchgrid gan ail osod y crawiau llechi o fewn rhan Ogleddol a'r ardal ystafell offer rheoli'r sistem wresogi'r tŷ. Codi wal newydd sydd yn rhannu'r gweithdy gydag agoriad drws uwch dau ris yn arwain lawr at lefel is yn y rhan Deheuol o'r ysgubor gan gynnwys yr holl waith trwsio mewnol perthnasol. Ysgubor Cae'r March, Llanfachreth.

Disgrifiad o'r cynllun: Lift and re-lay existing floor finishes over new limecrete slab and new ground source heat pump installation. New insulated cavity wall construction to separate plant room from rest of building.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/12/2020 trwy Zoom).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

vii. NP5/54/LB194. Newid defnydd adeilad amaethyddol i uned llety gwyliau gan amnewid to llenni rhychiog ac adnewyddu â tho llechi yn y dull traddodiadol, gosod 3 ffenestr to math cadwraeth drychiad Dwyreiniol, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw gydag agoriadau drysau presennol i'w cau a drysau pren a drysau o wydr, agoriadau lefel uchel i'w cau ac unedau ffenestri metel uwch siliau llechi gan drosi'r adeilad ysgubor i ddefnydd llety gwyliau dwy lofft, Twlc mochyn yng nghlwm i'w adfer a chynnal mesuriadau lliniaru ystlumod. Ysgubor Cae'r March, Llanfachreth.

Disgrifiad o'r cynllun: Conversion of outbuilding into holiday accommodation and installation of heating infrastructure with associated internal and external alterations.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (17/11/2020) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2021 / 2022. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 29, 2021.

Praesept 2018/19 - £6,000. Praesept 2019/20 - £6,000. Praesept 2020/21 - £9,000.

Anfonwyd i'r aelodau manylion yn rhoi awgrym y praesept am 2021 / 2022.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £12,000.

b. Derbyniwyd (24/11/2020) £242.59 oddi wrth y Clerc i gywiro cyflog y Clerc adeg 2019 – 2020.

c. Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2021-22. Maent yn rhoi gwybod gall Cyngorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 o dan adran 137(1) ac (3) £8.41, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn $£8.41 \times 603 = £5,071.23$.

ch. Bil (26/11/2020) am £175.00 oddi wrth Gwynfor E. Jones, Building Contractor, am drwsio to lloches bws ar ffordd A494 ger Bontnewydd.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

d. Bil (4/12/2020) am £1,211.00 oddi wrth A.M. Ashton am: tynnu lawr hysbysfwrdd wrth Ysgol Brithdir a'i waredu (£28.00), torri llwybrau cyhoeddus yn y gymuned (156 awr @ £7.00 = £1,092.00), glanhau a golchi llochesi bws Drwynant, Rhydymain a Brithdir (£35.00) torri a gwaredu gordyfiant o amgylch llochesi bws Drwsynant, Rhydymain a Bontnewydd (£56.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Llythyr (28/12/2020) oddi wrth Radio Ysbyty Gwynedd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

e. Llythyr (4/1/2021) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

f. Bil (7/1/2021) am £271.30 oddi wrth Archwilio Cymru. Mae'r taliad am Archwiliad o Gyfrifon 2019 / 2020 y Cyngor gwnaethpwyd gan BDO.

Penderfynwyd talu'r bil.

ff. Llythyr (13/1/2021) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru. Maent angen cymorth ariannol tuag at Eisteddfodau'r dyfodol: Sir Dinbych 2022, Sir Gaerfyrddin 2023 a Maldwyn 2024.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

g. Llythyr (14/1/2021) oddi wrth Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn considro codi trethi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor i hyd at 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022. Os ydym am gadw i'r Treth Cyngor Band D byddai modd cynyddu'r praesept o £9,000 i £9,590.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd cefnogi'r bwriad o godi'r dreth 100%. Roedd barn mae angen ad-drefn bandiau oherwydd mae angysondeb sut mae eiddo yn cael eu brisio.

h. Llythyr (14/1/2021) oddi wrth Dawns i Bawb. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater yn cyfarfod mis Chwefror.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

i. Bil (16/1/2021) am £197.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor cyn Mawrth 1, 2021.

Penderfynwyd talu'r bil.

j. Derbyniwyd (18/1/2021) £490.30, ad-daliad oddi wrth Cyngor Gwynedd at gynnal a chadw llwybrau.

l. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Tachwedd 2020: £1,141.28.
Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2020: £7,206.39 (29/11/2019: £4,853.70).

ll. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Rhagfyr 2020: £1,141.29.
Balans yn y banc ar 29 Rhagfyr 2020: £7,078.59. (29/12/2019: £4,729.26).

9. Archwilio

a. Derbyniwyd (9/12/2020) gan BDO, ein Harchwilydd Allanol, eu dogfennau canlyniad.

Anfonwyd yr adroddiad yn unig i'r aelodau.

Rhodddwyd y rhybuddion (Cymraeg a Saesneg) ar ein gwefan ac ar hysbysfyrddau y gymuned.

Cyflwynwyd y materion codwyd o'r archwiliad i'r Cyngor.

b. Llythyr (11/12/2020) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi amserlen ar gyfer trefniadau archwilio newydd y cynghorau. I'r Cyngor bydd archwilio 2020/21 a 2021/22 yn Sylfaenol ac archwilio 2022/23 yn Llawn.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Rhodddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (18/11/2020) bod grid yn ymyl Ty'r Orsaf, Drws y Nant wedi cau gyda dŵr yn cronni yn ôl a gorlifo i'r ffordd. Awgrymwyd iddynt gysylltu ag Emlyn Roberts i gyfarfod archwiliwr ar y safle i esbonio yn llawn beth sydd yn digwydd.

b. Diolchwyd i Karen Goswell am wneud ymoliadau â Signs Workshop a'r ymateb da cafwyd (18/11/2021). Awgrymwyd cael yr enw CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN ar ben yr hysbysfwrdd. Ond yr enw swyddogol ydi CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH.

Penderfynwyd cael yr enw CYNGOR CYMUNED ar yr hysbysfwrdd.

Penderfynwyd hefyd i Karen G. Goswell a Gerallt Griffith cael manylion o'r hysbysfwrdd sydd ei angen.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION IONAWR 19, 2021

c. Gwnaethpwyd ymoliadau ymhellach â Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd i gael gwybodaeth ynglŷn âg ail drefnu y cynghorau cymuned cafodd ei wneud. Mae hyn er mwyn cofrestru y Neuadd o dan y Cyngor presennol, sef Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth.

Derbyniwyd linc wefan ganddynt (9/12/2020) i gael gwybodaeth a phaswyd ef ymlaen i Guthrie Jones a Jones i helpu cofrestru'r Neuadd a'r tir yn enw Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth.

Penderfynwyd gwneud mwy o ymoliadau gyda Guthrie Jones a Jones ynglŷn â'r mater.

ch. Anfonwyd llythyr (10/12/2020) i Reolwr Stadau, Cyngor Gwynedd yn gofyn am y diweddaraf i drosglwyddo naill y Maes Parcio neu y Maes Chwarae sydd wrth Ysgol Llanfachreth i'r Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd dod a'r mater i'r cyfarfod nesaf.

11. Unrhyw fater arall

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau y Rhaglen Asesiad Risg.

b. Mae angen cadarnhau Asedion.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau yr Asedion.

c. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen llenwi bin halen Tanybryn wrth Blaenau Hall (19/11/2020)..

ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. Mae angen agor cwter rhwng Capel Ffrwd a Tyddyn Llywarch.

ii. Mae angen rhoi sylw i'r grid gwartheg a'r ffens sydd wrth ymyl Neuadd Rhydygorlan.

iii. Gwahodd Adrian Williams, Swyddog Priffyrdd, i'n cyfarfod nesaf i gael diweddaraf ynglŷn â Ffordd Lefel.

Llofnod:

Dyddiad: